# GYRFA CYMRU

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD I GWSMERIAID

### Cyflwyniad

Croeso i hysbysiad preifatrwydd CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF (**'Gyrfa Cymru**').

Mae Gyrfa Cymru yn parchu eich preifatrwydd ac wedi ymrwymo i ddiogelu eich data personol. Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych chi:

- ✓ sut rydym yn gofalu am eich data personol pan fyddwch yn ymweld â'n gwefannau gyrfacymru.llyw.cymru a cymrungweithio.llyw.cymru (o ble bynnag yn y byd y byddwch yn ymweld â'r wefan); a
- ✓ sut rydym yn gofalu am eich data personol yn gyffredinol (sef edrych ar eich data personol a sut y'i defnyddir mewn ffyrdd nad yw'n ymwneud â'n gwefannau); ac
- ✓ am eich hawliau preifatrwydd a sut mae'r gyfraith yn eich diogelu.

Er mwyn sicrhau bod yr hysbysiad preifatrwydd hwn mor hawdd â phosibl i'w ddeall, rydym wedi rhannu'r wybodaeth yn adrannau – cliciwch ar y pennawd sydd o ddiddordeb i chi i weld y wybodaeth berthnasol. Os nad ydych yn sicr o ystyr rhai o'r geiriau neu ymadroddion penodol, gallwch ddefnyddio'r "*Rhestr termau*" isod a fydd o gymorth i chi ddeall ystyr rhai o'r termau a ddefnyddir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Darllenwch yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd ag unrhyw hysbysiad preifatrwydd arall y byddwn o bosibl yn ei roi i chi ar adegau penodol pan fyddwn yn casglu neu'n prosesu data personol amdanoch chi. Bydd darllen ein hysbysiadau preifatrwydd yn eich helpu i ddeall sut a pham rydym yn defnyddio eich data.

**Pwysig:** byddwn yn parhau i adolygu'r hysbysiad preifatrwydd hwn. Dewch yn ôl yma yn rheolaidd i weld y fersiwn ddiweddaraf.

## 1 GWYBODAETH BWYSIG (GAN GYNNWYS SUT I GYSYLLTU Â NI)

### Diben yr hysbysiad preifatrwydd hwn

Diben yr hysbysiad preifatrwydd hwn yw rhoi gwybodaeth i chi ynglŷn â sut y mae Gyrfa Cymru yn casglu ac yn prosesu eich data personol drwy eich defnydd o'n gwefannau gyrfacymru.llyw.cymru a cymrungweithio.llyw.cymru a'ch defnydd o'n gwasanaethau yn gyffredinol, gan gynnwys unrhyw ddata efallai y byddwch yn ei roi wrth:

- ✓ Holi am ein gwasanaethau
- ✓ Cofrestru ar gyfer ein gwasanaethau
- ✓ Defnyddio ein gwasanaethau
- ✓ Sgwrsio ag un o'n Cynghorwyr Gyrfa
- ✓ Cofrestru i dderbyn ein cylchlythyr
- ✓ Cymryd rhan mewn cystadleuaeth
- ✓ Cymryd rhan mewn cwis
- ✓ Rhoi adborth i ni
- ✓ Ymweld â'n hadeiladau
- ✓ Mynychu digwyddiad Gyrfa Cymru (megis ffair gyrfaoedd ac ati)

### Rheolydd

Gyrfa Cymru yw'r rheolydd ac mae'n gyfrifol am eich data personol. Yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn, ble bynnag y defnyddir y geiriau "**ni**" neu "**ein**" maent yn cyfeirio at Gyrfa Cymru.

Rydym yn cymryd ein dyletswydd i ofalu am eich data personol o ddifrif. I'n helpu i ofalu am eich data personol, rydym wedi penodi tîm preifatrwydd data (gan gynnwys Swyddog Diogelu Data) i oruchwylio eich cwestiynau sy'n ymwneud â'r hysbysiad preifatrwydd hwn. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r hysbysiad preifatrwydd hwn, gan gynnwys unrhyw geisiadau i arfer eich hawliau cyfreithiol (rydym yn esbonio eich hawliau cyfreithiol yn adran 11 isod), cysylltwch â'n tîm preifatrwydd data gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod:

**Manylion cyswllt**

| | | |
|---|---|---|
| **Manylion cyswllt Gyrfa Cymru:** | ***Enw llawn:*** | CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF (rhif cofrestru'r cwmni 07442837) |
| | ***Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig:*** | Canolfan Gyrfa Caerdydd, Uned 4, Tŷ Churchill, 17 Ffordd Churchill Caerdydd, Cymru, CF10 2HH |
| **Manylion cyswllt y Tîm Preifatrwydd Data (gan gynnwys y Swyddog Diogelu Data):** | ***E-bost:*** | personal.data@careerswales.com |
| | ***Cyfeiriad post:*** | Canolfan Gyrfa Caerdydd, Uned 4, Tŷ Churchill, 17 Ffordd Churchill Caerdydd, Cymru, CF10 2HH |
| | ***Rhif ffôn:*** | 0800 028 4844 |

Rydym am roi gwybod i chi os ydych yn anfodlon ar rywbeth sy'n ymwneud â'ch data personol, mae gennych yr hawl i wneud cwyn unrhyw bryd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (**ICO**). Un o gyrff y llywodraeth sy'n goruchwylio materion diogelu data yn y DU yw'r ICO. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr ICO drwy ymweld â'u gwefan (*www.ico.org.uk*). Fodd bynnag, byddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i ateb eich pryderon cyn i chi gysylltu â'r ICO, felly cysylltwch â'n tîm preifatrwydd data (gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod), a rhowch wybod i ni pam eich bod yn anfodlon cyn cysylltu â'r ICO.

**Eich dyletswydd i'n hysbysu am newidiadau i'ch data personol**

Mae'n bwysig bod y data personol sydd gennym amdanoch yn gywir ac yn gyfredol. A fyddech cystal â'n hysbysu os bydd eich data personol yn newid tra byddwn yn gweithio gyda chi. Enghraifft o adeg pan all eich data personol newid yw pan fyddwch yn symud tŷ, yn newid ysgol / coleg neu pan fyddwch yn newid eich manylion cyswllt megis eich cyfeiriad e-bost neu rif ffôn symudol.

**Dolenni trydydd parti**

Pan fyddwch yn defnyddio ein gwefannau gyrfacymru.llyw.cymru a cymrungweithio.llyw.cymru efallai y bydd yn cynnwys dolenni at wefannau eraill nad ydym yn berchen arnynt neu nad ydynt o dan ein rheolaeth (**gwefannau trydydd parti**). Efallai y bydd clicio ar y dolenni hynny yn galluogi'r gwefannau trydydd parti hynny i gasglu neu rannu data amdanoch chi. Pan fyddwch yn gadael ein gwefannau, rydym yn argymell eich bod yn darllen hysbysiad preifatrwydd pob gwefan rydych yn ymweld â hi. Bydd hyn yn eich helpu i ddeall sut y
mae'r trydydd partïon hynny yn defnyddio eich data personol.

## 2 PA DDATA RYDYM YN EU CASGLU AMDANOCH CHI?

Mae data personol, neu wybodaeth bersonol, yn golygu unrhyw wybodaeth am unigolyn y gellir adnabod yr unigolyn hwnnw ohono. Nid yw'n cynnwys data lle mae hunaniaeth yr unigolyn wedi'i ddileu (data anhysbys).

Mae angen lefelau uwch o ddiogelwch ar rai "categorïau arbennig" o wybodaeth bersonol hynod sensitif. Mae angen i ni allu casglu, cadw a defnyddio'r math hwn o wybodaeth bersonol ar gyfer y gwasanaethau rydym yn eu darparu.

Efallai y byddwn yn casglu, defnyddio, cadw a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch chi ac rydym wedi'u grwpio at ei gilydd fel a ganlyn:

- ✓ **Data Hunaniaeth** – sy'n cynnwys enw cyntaf, enw olaf, teitl, dyddiad geni, rhyw, rhif yswiriant cenedlaethol, cyfeiriad e-bost ac unrhyw enw defnyddiwr a ddefnyddir gennych chi ar ein gwefannau / i gael mynediad at ein gwasanaethau digidol eraill.

- ✓ **Data Galwadau Ffôn** – sy'n golygu'r holl ddata sy'n cael ei recordio gan ein systemau teleffon (mae'n bosibl y byddwn yn recordio galwadau ffôn).

- ✓ **Data Diogelwch** - sy'n cynnwys gwybodaeth a gesglir amdanoch gan ein camerâu cylch cyfyng yn ein swyddfeydd ac unrhyw wybodaeth rydych yn ei hysgrifennu yn ein llyfr ymwelwyr pan fyddwch yn mynychu ein swyddfeydd. Noder mai efallai nid ni fydd yn gweithredu'r system teledu cylch cyfyng bob amser yn yr adeiladau a ddefnyddir gennym (er enghraifft, weithiau rydym yn rhannu adeilad â sefydliadau eraill). Yn yr achosion hyn, nid ni yw rheolydd data'r system teledu cylch cyfyng honno.

- ✓ **Data Cyswllt** – sy'n cynnwys cyfeiriad cartref, cyfeiriad cyswllt dros dro, cyfeiriad e-bost a rhifau ffôn.

- ✓ **Data Addysg a Gyrfa** – sy'n cynnwys manylion am eich statws (er enghraifft, a ydych yn yr ysgol, coleg neu mewn gwaith neu'n chwilio am waith ac a ydych mewn perygl o fod yn NEET (dim mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant)), manylion yr ysgol neu goleg rydych yn mynychu, manylion unrhyw gyflogwr sydd gennych, manylion unrhyw

gymwysterau sydd gennych neu rydych yn gweithio tuag atynt, unrhyw ddewisiadau posibl o ran eich addysg neu yrfa yn y dyfodol, yr Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol amdanoch chi, manylion unrhyw anghenion addysgol arbennig a allai fod gennych, manylion unrhyw anabledd a allai fod gennych, manylion ynglŷn ag a oes gennych hawl i brydau ysgol am ddim, manylion yr iaith y mae'n well gennych siarad ac ysgrifennu, manylion cofnodion presenoldeb ysgol, eich Rhif Dysgwr Unigryw a'ch Rhif Disgybl Unigryw.

- ✓ **Data Technegol** – sy'n cynnwys eich cyfeiriad rhyngrwyd (cyfeiriad IP), eich data mewngofnodi a manylion y cyfrifiaduron a'r ffonau symudol rydych yn eu defnyddio i gael mynediad at ein gwefannau.

- ✓ **Data Proffil** – sy'n cynnwys eich enw defnyddiwr a'r cyfrinair a ddefnyddir ar ein gwefannau, eich enw defnyddiwr a'r cyfrinair a ddefnyddir i gael mynediad at ein gwasanaethau digidol eraill, eich diddordebau, eich dewisiadau (gan gynnwys dewisiadau am eich addysg, gyrfa yn y dyfodol a'r iaith mae'n well gennych siarad ac ysgrifennu), adborth ac ymatebion i arolygon.

- ✓ **Data Defnydd** – sy'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut rydych yn defnyddio ein gwefannau a'n gwasanaethau, gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw ddigwyddiadau Gyrfa Cymru (sef digwyddiadau rydym yn eu trefnu naill ai ar ein pen ein hun neu gyda sefydliadau eraill) rydych yn eu mynychu.

- ✓ **Data Marchnata a Chyfathrebu** – sy'n cynnwys eich dewisiadau o ran derbyn gwybodaeth a / neu farchnata gennym ni a'n trydydd partïon a sut rydych yn dymuno derbyn y wybodaeth honno a / neu'r marchnata hwnnw.

- ✓ **Data Ariannu** – sy'n cynnwys manylion unrhyw arian neu gymorth arall eich bod efallai wedi'u derbyn megis unrhyw gynlluniau lleoliad gwaith rydych wedi bod yn rhan ohonynt.

- ✓ **Data Categori Arbennig** – sy'n cynnwys manylion am eich hil neu ethnigrwydd, manylion crefydd, gwybodaeth am unrhyw anghenion addysgol arbennig a allai fod gennych, gwybodaeth am unrhyw anabledd a allai fod gennych, gwybodaeth am unrhyw droseddau neu euogfarnau troseddol a allai fod gennych. Rydym wedi cynnwys cyfeiriadau at beth o'r data personol categori arbennig hwn yn y grwpiau gwybodaeth uchod, ond rydym wedi'u nodi ar wahân yn y fan hon er mwyn i chi allu deall beth ydynt.

Gan ein bod yn gorff cyhoeddus mae'n ofynnol i ni adrodd ar sut ydym yn bodloni ein rhwymedigaethau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae hyn yn golygu y gallwn o bosibl gyfuno eich data personol â data personol pobl eraill i gynhyrchu "ystadegau". Nid yw'r gyfraith yn ystyried y data cyfunol hwn yn ddata personol gan nad yw'n datgelu pwy ydych chi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Rydym yn rhannu'r ystadegau / data cyfunol rydym yn eu creu â sefydliadau eraill.

**Os byddwch yn methu â darparu data personol**

Lle mae angen i ni gasglu data personol yn ôl y gyfraith, neu o dan delerau contract (megis contract â sefydliad sy'n rhoi arian i chi) neu i gyflwyno ein gwasanaethau a'ch bod yn methu â darparu'r data hwnnw pan ofynnir amdano, mae'n bosibl na fyddwn yn gallu darparu help na chymorth i chi (er enghraifft, efallai na fyddwn yn gallu rhoi cyfarwyddyd gyrfa i chi). Pe bai'r sefyllfa hon yn codi, byddwn yn eich hysbysu.

## 3 SUT Y CAIFF EICH DATA PERSONOL EU CASGLU?

Rydym yn defnyddio dulliau gwahanol i gasglu data gennych chi ac amdanoch chi. Er mwyn ei gwneud hi'n haws i chi ddeall pa ddata rydym yn eu casglu a sut rydym yn eu casglu, rydym wedi nodi rhai enghreifftiau yn y tabl isod:

| Dull o gasglu data: | Enghreifftiau o sut rydym yn casglu data yn y dull hwn: | Pa ddata a gesglir gennym yn y dull hwn: |
|---|---|---|
| **Ryngweithiadau uniongyrchol**:<br><br>Pan fyddwch yn:<br><br>✓ cwblhau ffurflenni,<br>✓ cysylltu â ni drwy'r post,<br>✓ cysylltu â ni dros y ffôn (noder ein bod yn recordio galwadau),<br>✓ cysylltu â ni drwy e-bost,<br>✓ cysylltu â ni drwy sgwrs ar-lein, neu<br>✓ yn dod i gysylltiad â ni yn bersonol,<br><br>rydym yn casglu data personol amdanoch | Rydych yn rhoi data personol i ni pan fyddwch yn:<br><br>➢ holi am ein gwasanaethau;<br>➢ gofyn i Gyrfa Cymru am help a chymorth;<br>➢ cyfarfod â'ch Cynghorydd Gyrfaoedd Gyrfa Cymru / defnyddio ein gwasanaethau yn gyffredinol;<br>➢ creu cyfrif ar ein gwefannau neu wasanaeth ar-lein arall rydym yn ei gynnig;<br>➢ rhyngweithio ag unrhyw un o'n gwasanaethau ar-lein;<br>➢ tanysgrifio i'n cyhoeddiadau;<br>➢ gofyn i ni anfon deunydd marchnata neu wybodaeth atoch;<br>➢ cwblhau cwis (megis y Cwis Paru Swyddi ar-lein neu'r Cwis Gwirio Gyrfa ar-lein);<br>➢ cymryd rhan mewn cystadleuaeth, hyrwyddiad neu arolwg; | ➢ Data Hunaniaeth<br>➢ Data Galwadau Ffôn<br>➢ Data Diogelwch<br>➢ Data Cyswllt<br>➢ Data Addysg a Gyrfa<br>➢ Data Technegol<br>➢ Data Proffil<br>➢ Data Defnydd<br>➢ Data Marchnata a Chyfathrebu<br>➢ Data Ariannu<br>➢ Data Categori Arbennig |

| | | |
|---|---|---|
| chi. | ➢ rhoi adborth i ni;<br>➢ mynychu ein swyddfeydd; neu<br>➢ mynychu digwyddiad a drefnwyd gennym Ni. | |

| **Dull o gasglu data:** | **Enghreifftiau o sut rydym yn casglu data yn y dull hwn:** | **Pa ddata a gesglir gennym yn y dull hwn:** |
|---|---|---|
| **Defnyddio ein gwefannau:**<br><br>Wrth i chi ddefnyddio ein gwefannau gyrfacymru.llyw.cymru a cymrungweithio.llyw.cymru mae'n bosibl y byddwn yn casglu data yn awtomatig am eich cyfrifiadur / offer ffôn symudol a sut rydych yn defnyddio ac yn edrych ar ein gwefannau. | Rydym yn casglu'r data personol hwn yn y dull hwn drwy ddefnyddio:<br><br>➢ Cwcis;<br>➢ Logiau gweinyddwyr; a<br>➢ thechnolegau tebyg eraill.<br><br>Gweler ein *polisi cwcis* am ragor o fanylion. | ➢ Data Technegol<br>➢ Data Proffil<br>➢ Data Defnydd |
| **Defnyddio ein wi-fi ar gyfer gwesteion:** | Mewn rhai o'n swyddfeydd mae Wi-Fi am ddim ar gael ar y safle at ddefnydd ymwelwyr. Byddwn yn rhoi'r cyfeiriad a'r cyfrinair i chi. | ➢ Data Technegol (a gwybodaeth traffig ar ffurf gwefannau yr ymwelwyd â nhw, hyd a'r dyddiad anfon/derbyn) |

| **Dull o gasglu data:** | **Enghreifftiau o sut rydym yn casglu data yn y dull hwn:** | **Pa ddata a gesglir gennym yn y dull hwn:** |
|---|---|---|
| **Trydydd partïon neu ffynonellau sydd ar gael yn gyhoeddus:**<br><br>Mae'n bosibl y byddwn yn cael data personol amdanoch gan drydydd partïon a ffynonellau cyhoeddus amrywiol. | Mae'n bosibl y byddwn yn casglu **Data Technegol** a/neu **Data Defnydd** gan y partïon canlynol:<br><br>a) darparwyr dadansoddeg megis Google wedi'u lleoli y tu mewn neu'r tu allan i'r UE; a<br><br>b) rhwydweithiau hysbysebu.<br><br>Rydym yn casglu **Data Hunaniaeth, Data Cyswllt, Data Addysg a Gyrfa, Data Ariannu** a **Data Categori Arbennig** gan y trydydd partïon canlynol:<br><br>a) Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill sydd â diddordeb mewn gyrfaoedd, addysg, hyfforddiant a / neu wasanaethau cyflogaeth;<br><br>b) Awdurdodau lleol;<br><br>c) Ysgolion a cholegau;<br><br>d) Darparwyr hyfforddiant;<br><br>e) Cyflogwyr;<br><br>f) Busnesau sy'n darparu cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith;<br><br>g) Carcharau neu ganolfannau cadw eraill (lle y bo'n berthnasol);<br><br>h) Adran Gwaith a Phensiynau (os ydych yn derbyn unrhyw fudd-daliadau / lwfansau);<br><br>i) Sefydliadau eraill rydych o bosibl yn ymwneud â nhw sydd angen rhannu data gyda ni fel bod modd i ni ddarparu addysg, hyfforddiant a chyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd priodol. | ➢ Data Technegol<br><br>➢ Data Defnydd<br><br>➢ Data Hunaniaeth<br><br>➢ Data Cyswllt<br><br>➢ Data Addysg a Gyrfaoedd<br><br>➢ Data Ariannu<br><br>➢ Data Categori Arbennig |

## 4 SUT RYDYM YN DEFNYDDIO EICH DATA PERSONOL YN GYFFREDINOL?

Byddwn ond yn defnyddio eich data personol pan fo'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Yn amlach na pheidio, byddwn yn defnyddio eich data personol dan yr amgylchiadau canlynol:

- ✓ Lle mae angen i ni ddarparu gwybodaeth, cyngor a/neu gyfarwyddyd gyrfaoedd, addysg a/neu hyfforddiant i chi.
- ✓ Lle mae'n angenrheidiol i gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol Gyrfa Cymru.
- ✓ Lle mae'n angenrheidiol o ran ein buddiannau cyfreithlon (neu fuddiannau cyfreithlon trydydd parti) a lle nad yw eich hawliau personol yn drech na'r diddordebau hynny.
- ✓ Lle mae angen i ni gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu reoleiddiol.

Byddwn ond yn defnyddio eich Data Categori Arbennig pan fo'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Yn amlach na pheidio, byddwn yn defnyddio eich data personol Categori Arbennig dan yr amgylchiadau canlynol:

- ✓ Mewn amgylchiadau prin, gyda'ch caniatâd ysgrifenedig penodol.
- ✓ Lle mae ei angen er budd cyhoeddus sylweddol, megis i'ch cefnogi i wneud penderfyniadau am eich addysg a'ch gyrfa, i helpu eich atal rhag bod yn NEET (dim mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant), ar gyfer monitro cyfle cyfartal ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.
- ✓ Yn llai cyffredin, efallai y byddwn yn prosesu'r math hwn o wybodaeth lle mae ei angen mewn perthynas â hawliadau cyfreithiol neu lle mae ei angen i ddiogelu eich budd (neu fudd rhywun arall) ac nad ydych yn gallu rhoi eich caniatâd, neu lle rydych eisoes wedi gwneud y wybodaeth yn gyhoeddus.

Cewch ragor o wybodaeth am y mathau o seiliau cyfreithiol rydym yn dibynnu arnynt i brosesu eich data personol drwy ddarllen yr adran Rhestr Termau isod.

Yn gyffredinol, nid ydym yn dibynnu ar ganiatâd fel sail gyfreithiol i brosesu eich data personol heblaw am mewn perthynas ag anfon gohebiaeth farchnata uniongyrchol atoch drwy e-bost neu neges destun. Mae gennych yr hawl i dynnu'ch caniatâd i dderbyn deunydd marchnata drwy e-bost neu neges destun yn ôl unrhyw bryd drwy gysylltu â'n tîm preifatrwydd data neu drwy glicio "datdanysgrifio" ar unrhyw e-bost neu neges destun marchnata y gallech dderbyn gennym ni.

Rydym wedi disgrifio isod, ar ffurf tabl, y prif ffyrdd rydym yn bwriadu defnyddio eich data personol a’r rhesymau cyfreithiol pam rydym yn defnyddio eich data personol yn y modd hwn. Dylech hefyd ddarllen adran 5 (A ydym yn gwneud defnydd o broffilio?) ac adran 6 (Sut rydym yn defnyddio eich data personol at ddibenion marchnata a sut rydym yn cyflwyno ein gwasanaethau?) isod.

Mae’n bosibl y byddwn yn prosesu eich data personol ar gyfer mwy nag un sail gyfreithiol yn dibynnu ar y diben penodol y defnyddir y data ar ei gyfer. Cysylltwch â’n tîm preifatrwydd data os oes angen manylion arnoch am y sail gyfreithiol benodol rydym yn dibynnu arni i brosesu eich data personol, lle nodwyd mwy nag un sail yn y tabl isod.

| **Diben/Gweithgaredd** | **Math o ddata** | **Sail gyfreithiol i brosesu gan gynnwys sail budd cyfreithlon** |
|---|---|---|
| Eich cofrestru fel cwsmer newydd i Gyrfa Cymru. | (a) Data Hunaniaeth<br><br>(b) Data Cyswllt<br><br>(c) Data Addysg a Gyrfa<br><br>(d) Data Proffil<br><br>(e) Data Marchnata a Chyfathrebu<br><br>(f) Data Ariannu<br><br>(g) Data Categori Arbennig | (a) Angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol<br><br>(b) Cyflawni tasg er budd y cyhoedd a / neu gyflawni ein swyddogaethau swyddogol<br><br>(c) Cyflawni tasg er budd cyhoeddus sylweddol (lle mae'n ymwneud â Data Categori Arbennig) |
| Er mwyn rhoi:<br><br>✓ cyfarwyddyd / cymorth gyrfaoedd<br><br>✓ cyfarwyddyd / cymorth addysgol<br><br>✓ cefnogaeth i helpu eich atal rhag bod yn ddi-waith neu rhag gadael addysg / hyfforddiant | (a) Data Hunaniaeth<br><br>(b) Data Cyswllt<br><br>(c) Data Addysg a Gyrfa<br><br>(d) Data Proffil<br><br>(e) Data Defnydd<br><br>(f) Data Marchnata a Chyfathrebu<br><br>(g) Data Cyllido<br><br>(h) Data Categori Arbennig | (a) Angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol<br><br>(b) Cyflawni tasg er budd y cyhoedd a / neu gyflawni ein swyddogaethau swyddogol<br><br>(c) Cyflawni tasg er budd cyhoeddus sylweddol (lle mae'n ymwneud â Data Categori Arbennig). |

| Diben/Gweithgaredd | Math o ddata | Sail gyfreithiol i brosesu gan gynnwys sail budd cyfreithlon |
|---|---|---|
| Rhoi gwybod i chi am ddigwyddiadau gyrfaoedd sy'n cael eu cynnal / cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael i chi o bosibl | (a) Data Hunaniaeth<br><br>(b) Data Cyswllt<br><br>(c) Data Addysg a Gyrfa<br><br>(d) Data Proffil<br><br>(e) Data Defnydd<br><br>(f) Data Marchnata a Chyfathrebu<br><br>(g) Data Categori Arbennig | (a) Cyflawni tasg er budd y cyhoedd a / neu gyflawni ein swyddogaethau swyddogol<br><br>(b) Cyflawni tasg er budd cyhoeddus sylweddol (lle mae'n ymwneud â Data Categori Arbennig) |
| Rheoli ein perthynas gyda chi fydd yn cynnwys:<br><br>✓ Eich hysbysu am newidiadau i'n telerau neu bolisi preifatrwydd<br><br>✓ Gofyn i chi gwblhau adolygiad neu arolwg<br><br>✓ Eich gwahodd i gwblhau cwis | (a) Data Hunaniaeth<br><br>(b) Data Cyswllt<br><br>(c) Data Addysg a Gyrfa<br><br>(d) Data Proffil<br><br>(e) Data Defnydd<br><br>(f) Data Marchnata a Chyfathrebu<br><br>(g) Data Categori Arbennig | (a) Angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol<br><br>(b) Cyflawni tasg er budd y cyhoedd a / neu gyflawni ein swyddogaethau swyddogol<br><br>(c) Cyflawni tasg er budd cyhoeddus sylweddol (lle mae'n ymwneud â Data Categori Arbennig).<br><br>(d) Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon (diweddaru ein cofnodion ac astudio sut y mae cwsmeriaid yn defnyddio ein gwasanaethau) |

| **Diben/Gweithgaredd** | **Math o ddata** | **Sail gyfreithiol i brosesu gan gynnwys sail budd cyfreithlon** |
|---|---|---|
| Eich galluogi i gymryd rhan mewn cystadleuaeth i ennill gwobr, cwis, cystadleuaeth neu gwblhau arolwg | (a) Data Hunaniaeth<br><br>(b) Data Cyswllt<br><br>(c) Data Addysg a Gyrfa<br><br>(d) Data Proffil<br><br>(e) Data Defnydd<br><br>(f) Data Marchnata a Chyfathrebu | (a) Cyflawni contract â chi<br><br>(b) Cyflawni tasg er budd y cyhoedd a / neu gyflawni ein swyddogaethau swyddogol<br><br>(c) Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon (astudio sut y mae cwsmeriaid yn defnyddio ein cynhyrchion/gwasanaethau, i'w datblygu a thyfu ein busnes) |
| Gweinyddu a diogelu ein busnes a'n gwefannau (gan gynnwys sicrhau bod ein systemau TG yn gweithio'n gywir, gwybod pwy sydd wedi ymweld â'n swyddfeydd, adrodd i'n cyllidwyr, datrys unrhyw faterion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau y byddwch yn eu codi a chaniatáu i'n busnes gael ei archwilio fel bo angen). | (a) Data Hunaniaeth<br><br>(b) Data Galwadau Ffôn<br><br>(c) Data Diogelwch<br><br>(d) Data Cyswllt<br><br>(e) Data Addysg a Gyrfa<br><br>(f) Data Technegol<br><br>(g) Data Proffil<br><br>(h) Data Defnydd<br><br>(i) Data Marchnata a Chyfathrebu<br><br>(j) Data Ariannu<br><br>(k) Data Categori Arbennig | (a) Angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol<br><br>(a) Cyflawni tasg er budd y cyhoedd a / neu gyflawni ein swyddogaethau swyddogol<br><br>(c) Cyflawni tasg er budd cyhoeddus sylweddol (lle mae'n ymwneud â Data Categori Arbennig)<br><br>(d) Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon (cynnal ein busnes, darparu gwasanaethau gweinyddol a TG, diogelwch y rhwydwaith, diogelwch ein hadeiladau a'r bobl yn yr adeiladau hynny, dibenion hyfforddi a monitro, atal twyll ac yng nghyd-destun ad-drefnu busnes neu ymarfer ailstrwythuro grŵp) |

| **Diben/Gweithgaredd** | **Math o ddata** | **Sail gyfreithiol i brosesu gan gynnwys sail budd cyfreithlon** |
|---|---|---|
| Darparu cynnwys gwefannau a hysbysebion perthnasol i chi. | (a) Data Hunaniaeth<br><br>(b) Data Cyswllt<br><br>(c) Data Technegol<br><br>(d) Data Proffil<br><br>(e) Data Defnydd<br><br>(f) Data Marchnata a Chyfathrebu | (a) Cyflawni tasg er budd y cyhoedd a / neu gyflawni ein swyddogaethau swyddogol<br><br>(b) Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon (astudio sut y mae cwsmeriaid yn defnyddio ein gwasanaethau, i'w datblygu, tyfu ein busnes a llywio ein strategaeth farchnata) |
| Defnyddio dadansoddeg data i wella ein gwefannau a'r gwasanaethau a gynigir gennym. | (a) Data Technegol<br><br>(b) Data Proffil<br><br>(c) Data Defnydd<br><br>(d) Data Cyswllt<br><br>(e) Data Addysg a Gyrfa | (a) Cyflawni tasg er budd y cyhoedd a / neu gyflawni ein swyddogaethau swyddogol<br><br>(b) Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon (diffinio mathau o gwsmeriaid ar gyfer ein cynhyrchion a'n gwasanaethau, sicrhau bod ein gwefannau yn gyfredol ac yn berthnasol, datblygu ein busnes a llywio ein strategaeth farchnata) |

| **Diben/Gweithgaredd** | **Math o ddata** | **Sail gyfreithiol i brosesu gan gynnwys sail budd cyfreithlon** |
|---|---|---|
| Gwneud awgrymiadau ac argymhellion i chi am wasanaethau a allai fod o ddiddordeb i chi | (a) Data Hunaniaeth<br><br>(b) Data Cyswllt<br><br>(c) Data Addysg a Gyrfa<br><br>(d) Data Technegol<br><br>(e) Data Proffil<br><br>(f) Data Defnydd<br><br>(g) Data Marchnata a Chyfathrebu<br><br>(h) Data Ariannu<br><br>(i) Data Categori Arbennig | (a) Cyflawni tasg er budd y cyhoedd a / neu gyflawni ein swyddogaethau swyddogol<br><br>(b) Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon (datblygu ein cynhyrchion/gwasanaethau a thyfu ein busnes)<br><br>(c) Cyflawni tasg er budd cyhoeddus sylweddol (lle mae'n ymwneud â Data Categori Arbennig) |
| Adrodd ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth a chwrdd â'n dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus | (a) Data Categori Arbennig<br><br>(b) Gwybodaeth am ryw ac oedran | (a) Angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol<br><br>(b) Cyflawni tasg er budd cyhoeddus sylweddol |

| Diben/Gweithgaredd | Math o ddata | Sail gyfreithiol i brosesu gan gynnwys sail budd cyfreithlon |
|---|---|---|
| Cynnal ymchwil ac ysgrifennu adroddiadau sydd o fudd i'r cyhoedd (mae'n bosibl y byddwn yn cyfuno eich data personol â data personol pobl eraill i greu "ystadegau". Nid yw'r gyfraith yn ystyried y data cyfunol hwn yn ddata personol gan nad yw'n datgelu pwy ydych chi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) | (a) Data Hunaniaeth<br>(b) Data Cyswllt<br>(c) Data Addysg a Gyrfa<br>(d) Data Defnydd<br>(e) Data Categori Arbennig | (a) Cyflawni tasg er budd y cyhoedd a / neu gyflawni ein swyddogaethau swyddogol<br>(b) Cyflawni tasg er budd sylweddol i'r cyhoedd (lle mae'n ymwneud â Data Categori Arbennig) |
| Darparu mynediad i chi at WI-FI am ddim i ymwelwyr pan fyddwch ar ein safle | Data Technegol (a gwybodaeth traffig ar ffurf safleoedd yr ymwelwyd â nhw, hyd a'r dyddiad anfon/derbyn) | Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon (er mwyn gallu darparu mynediad at WI-FI am ddim) |

**Newid diben**

Byddwn ond yn defnyddio eich data personol at y dibenion y cawsant eu casglu ar eu cyfer, oni fyddwn yn credu'n rhesymol bod angen eu defnyddio am reswm arall a bod y rheswm hwnnw'n gydnaws â'r diben gwreiddiol. Cysylltwch â'n tîm preifatrwydd data os ydych eisiau rhagor o wybodaeth.

Os bydd angen i ni ddefnyddio eich data personol at ddiben nad yw'n gysylltiedig, byddwn (lle bynnag y bo modd) yn eich hysbysu ac yn esbonio'r sail gyfreithiol sy'n caniatáu i ni wneud hynny.

**PWYSIG:** Noder y gallem brosesu eich data personol heb yn wybod i chi a heb eich caniatâd pan fo angen neu lle y caniateir hynny gan y gyfraith.  Enghraifft bosibl yw lle mae gennym bryderon ynglŷn â diogelu.

## 5 A YDYM YN GWNEUD DEFNYDD O BROFFILIO?

Wrth ddarparu ein gwasanaethau i chi rydym weithiau'n gwneud defnydd o "broffilio" (mae proffilio'n golygu defnyddio technoleg wedi'i awtomeiddio i ragfynegi canlyniadau gwahanol). Mae enghreifftiau o lle y gallem wneud defnydd o broffilio yn cynnwys:

- Pan fyddwch yn cwblhau'r cwis Gwirio Gyrfa – mae'r cwis hwn yn defnyddio meddalwedd sy'n ein helpu i bennu'r ffordd fwyaf priodol y gallwn weithio gyda chi i ddiwallu eich anghenion;

- Pan fyddwch yn cwblhau'r cwis Paru Swyddi – mae'r cwis yn defnyddio algorithm i helpu nodi'r swyddi sy'n gweddu orau i'ch atebion i'r cwestiynau;

- Er mwyn gwella'r modd rydym yn cyflwyno gwasanaethau i chi a / neu i lywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol.

Os hoffech ragor o wybodaeth ynglŷn â sut rydym yn gwneud defnydd o broffilio, cysylltwch â'n tîm preifatrwydd data.

## 6 SUT RYDYM YN DEFNYDDIO EICH DATA PERSONOL AT DDIBENION MARCHNATA A SUT RYDYM YN CYFLWYNO EIN GWASANAETHAU?

Gallem ddefnyddio eich Data Hunaniaeth, Data Cyswllt, Data Addysg a Gyrfa, Data Technegol, Data Proffil, Data Defnydd a'ch Data Ariannu i anfon gohebiaeth farchnata atoch.

Byddwch yn cael gohebiaeth farchnata gennym os byddwch wedi:

- ✓ mynychu ysgol neu goleg yng Nghymru; neu

- ✓ holi am wybodaeth gennym ni; neu

- ✓ cofrestru i dderbyn ein gwasanaethau; neu

- ✓ rhoi eich manylion i ni wrth gymryd rhan mewn cystadleuaeth, cwis neu gofrestru ar gyfer hyrwyddiad; neu

- ✓ mynychu digwyddiad a drefnwyd gennym ni (ar ein pen ein hun neu ynghyd ag eraill)

ac ym mhob achos, na fyddwch wedi dewis peidio â chael y math hwnnw o ddeunydd marchnata.

Lle byddwn eisiau anfon negeseuon marchnata atoch drwy e-bost neu neges destun byddwn yn gofyn am eich "caniatâd" i wneud hynny. Nid oes rhaid i chi roi caniatâd a hyd yn oed os byddwch yn rhoi caniatâd, gallwch dynnu eich caniatâd i dderbyn e-byst a negeseuon testun marchnata yn ôl unrhyw bryd.

**Sut mae "optio allan" o gael gwybodaeth farchnata?**

Gallwch ofyn i ni roi'r gorau i anfon negeseuon marchnata atoch unrhyw bryd drwy gysylltu â'n tîm preifatrwydd data gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod neu drwy ddatdanysgrifio o unrhyw e-bost neu neges destun marchnata y gallech eu derbyn.

Pan fyddwch yn optio allan o dderbyn y negeseuon marchnata hyn, ni fydd hyn yn berthnasol i ddata personol a roddwyd i ni o ganlyniad i unrhyw wasanaeth y gallem fod wedi'i roi i chi (megis cyngor ar addysg a gyrfaoedd).

**Sut rydym yn cyflwyno ein gwasanaethau? Pwysig, darllenwch!:**

Mae llawer o'n gwasanaethau'n cael eu cyflwyno'n electronig. Os byddwn yn anfon e-bost neu neges destun atoch ac mai diben yr e-bost neu'r neges destun yw "cyflwyno gwasanaeth", nid oes angen eich caniatâd arnom i'w hanfon atoch chi. Os hoffech ddeall y gwahaniaeth rhwng yr hyn y credwn sy'n weithgaredd "marchnata" (lle mae angen eich caniatâd arnom i anfon e-bost neu neges destun atoch chi) a'r hyn y credwn sy'n weithgaredd "cyflwyno gwasanaeth" (lle nad oes angen caniatâd i anfon negeseuon e-bost a negeseuon testun atoch chi, cysylltwch â thîm preifatrwydd data Gyrfa Cymru gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

**Cwcis**

Rydym yn defnyddio cwcis ar ein gwefannau. Os ydych eisiau rhagor o wybodaeth gweler ein *polisi cwcis* .

## 7 GYDA PHWY RYDYM YN RHANNU EICH DATA PERSONOL?

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich data personol â'r sefydliadau canlynol at y dibenion a nodir yn adran 4 uchod:

| | |
|---|---|
| *Rheolyddion data eraill sy'n gysylltiedig â* | ✓ Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill sy'n gysylltiedig â gwasanaethau addysg, gyrfaoedd, hyfforddiant a chyflogaeth;<br>✓ Eich Awdurdod Lleol, ysgol a / neu goleg; |

| | |
|---|---|
| *chyfarwyddyd gyrfaoedd, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth neu sydd â chyfrifoldeb dros les pobl yng Nghymru:* | ✓ Y gwasanaeth carcharau (lle bo'n berthnasol);<br>✓ Busnesau fydd efallai yn eich cymryd ar leoliad profiad gwaith;<br>✓ Eich cyflogwr;<br>✓ Darparwyr Hyfforddiant;<br>✓ Sefydliadau trydydd sector y byddwch o bosibl yn ymwneud â nhw megis Cyfle Cymru, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent ac Ymddiriedolaeth y Tywysog er enghraifft. |
| *Ein proseswyr data (sy'n golygu busnesau sy'n gwneud gwaith yn ôl ein cyfarwyddyd):* | ✓ Darparwyr gwasanaethau sy'n darparu gwasanaethau TG a / neu wasanaethau gweinyddu system;<br>✓ Darparwyr gwasanaethau sy'n darparu gwasanaethau gweinyddu busnes;<br>✓ Darparwyr gwasanaethau sy'n darparu gwasanaethau gwybodaeth busnes a dadansoddi data;<br>✓ Darparwyr gwasanaethau sy'n darparu gwasanaethau eraill i ni. |
| *Sefydliadau eraill:* | ✓ Cynghorwyr proffesiynol gan gynnwys cyfreithwyr, bancwyr, archwilwyr ac yswirwyr wedi'u lleoli yn y DU sy'n darparu gwasanaethau ymgynghorol, bancio, cyfreithiol, yswiriant a chyfrifo;<br>✓ Ein Swyddog Diogelu Data allanol;<br>✓ Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, rheoleiddwyr ac awdurdodau eraill wedi'u lleoli yn y DU sydd angen i ni adrodd ar weithgareddau prosesu o dan amgylchiadau penodol;<br>✓ Cyllidwyr Gyrfa Cymru (h.y. asiantaethau cyllido Ewropeaidd) a'u harchwilwyr;<br>✓ Asiantaethau marchnata ac ymchwil y farchnad;<br>✓ Ymchwilwyr, asiantaethau ymchwil a sefydliadau marchnata;<br>✓ Sefydliadau eraill y gallem drosglwyddo ein busnes atynt neu uno â nhw o adeg i adeg. |

Nid ydym yn caniatáu i'n darparwyr trydydd parti (sy'n gweithredu fel ein proseswyr data) ddefnyddio eich data personol at eu dibenion eu hunain ac rydym ond yn caniatáu iddynt brosesu eich data personol at ddibenion penodol ac yn unol â'n cyfarwyddiadau.

Weithiau, fel rhan o ddarparu cyngor, cyfarwyddyd a chymorth i chi, mae'n bosibl y bydd angen i ni rannu eich data personol â'ch rhiant neu warcheidwad. Byddwn yn trafod hyn gyda chi petai'n digwydd

## 8 TROSGLWYDDO EICH DATA PERSONOL YN RHYNGWLADOL

Rydym yn cadw ac felly'n prosesu eich data personol yn y Deyrnas Unedig a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE). Yn gyffredinol, nid ydym yn trosglwyddo eich data personol y tu allan i'r Deyrnas Unedig/AEE. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn trosglwyddo eich data y tu allan i'r Deyrunas Unedig/AEE lle y caniateir hynny gan ddeddfwriaeth diogelu data sy'n berthnasol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am hyn drwy gysylltu â'n tîm preifatrwydd data.

Yn anaml, lle mae eich rhiant neu warcheidwad yn byw y tu allan i'r Deyrunas Unedig a'u bod yn gysylltiedig â'r broses cyfarwyddyd a chymorth addysg, hyfforddiant a gyrfaoedd, mae'n bosibl y bydd angen i ni drosglwyddo eich data personol y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Yn yr achos hwn, byddwn yn trafod hyn gyda chi.

## 9 SUT RYDYM YN CADW EICH DATA PERSONOL YN DDIOGEL?

Rydym wedi rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith i atal eich data personol rhag cael eu colli, eu defnyddio mewn modd heb ei awdurdodi, eu newid neu eu datgelu'n anfwriadol. Yn ogystal, rydym yn cyfyngu mynediad at eich data personol i'r gweithwyr hynny sydd angen gwybod am resymau busnes. Byddant ond yn prosesu eich data yn unol â'n cyfarwyddiadau ni, ac maent yn atebol i ddyletswydd o gyfrinachedd.

Os byddwn yn amau unrhyw fynediad anawdurdodedig at ddata personol, mae gennym weithdrefnau ar waith i ddelio â'r sefyllfa, a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol am fynediad o'r fath lle mae'n ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

## 10 AM BA HYD RYDYM YN CADW EICH DATA PERSONOL?

### Am ba hyd y byddwch yn defnyddio fy nata personol?

Byddwn ond yn cadw eich data personol cyhyd ag y bo'n angenrheidiol i gyflawni'r dibenion y casglwyd y data ar eu cyfer, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd yn ôl.

Er mwyn pennu'r cyfnod cadw priodol ar gyfer data personol, rydym yn ystyried maint, natur a sensitifrwydd y data personol, y perygl posibl o niwed a ddeuai o ddefnyddio neu ddatgelu eich data personol heb awdurdod, at ba ddibenion yr ydym yn prosesu eich data personol ac a oes modd i ni gyflawni'r dibenion hynny trwy ddulliau eraill, a'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Mae manylion am gyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau ar eich data personol ar gael yn ein polisi cadw, y gallwch ofyn amdano drwy gysylltu â'n tîm preifatrwydd data gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodir uchod.

Mewn rhai amgylchiadau, gallwch ofyn i ni ddileu eich data: gweler y Rhestr Termau isod am ragor o wybodaeth.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y byddwn yn defnyddio eich data personol yn ddienw (fel na ellir eu cysylltu â chi mwyach) at ddibenion ymchwil neu ddibenion ystadegol neu er mwyn rhoi gwybodaeth i'n cyllidwyr, ac yn yr achos hwn, efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon am gyfnod amhenodol heb roi rhybudd pellach i chi.

## 11 PA HAWLIAU SYDD GENNYF MEWN PERTHYNAS Â'M DATA PERSONOL?

O dan rai amgylchiadau, mae gennych hawliau o dan gyfreithiau diogelu data mewn perthynas â'ch data personol. Gallwch ddarllen rhagor am yr hawliau hyn yn yr adran Rhestr Termau isod:

- ✓ *Gofyn am fynediad at eich data personol*.
- ✓ *Gofyn i'ch data personol gael eu cywiro*.
- ✓ *Gofyn i'ch data personol gael eu dileu*.
- ✓ *Gwrthwynebu prosesu eich data personol*.
- ✓ *Gofyn am gyfyngu ar brosesu eich data personol*.
- ✓ *Gofyn am drosglwyddo eich data personol*.
- ✓ *Yr hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl*.

Os ydych yn dymuno arfer unrhyw un o'r hawliau a nodir uchod, cysylltwch â'n tîm preifatrwydd data gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodir uchod.

**Dim ffi yn ofynnol fel arfer**

Ni fydd angen i chi dalu ffi i gael mynediad at eich data personol (neu i arfer unrhyw un o'r hawliau eraill). Fodd bynnag, efallai y byddwn yn codi ffi resymol os yw eich cais yn amlwg yn ddi-sail, yn ailadroddus neu'n ormodol. Fel arall, gallwn wrthod cydymffurfio â'ch cais yn yr amgylchiadau hyn.

**Yr hyn y bydd angen i chi ei ddarparu**

Efallai y bydd angen i ni ofyn am wybodaeth benodol gennych er mwyn ein helpu i gadarnhau pwy ydych chi a sicrhau bod gennych yr hawl i gael mynediad at eich data personol (neu i arfer unrhyw un o'ch hawliau eraill). Mesur diogelwch yw hwn i sicrhau na chaiff data personol eu datgelu i neb nad oes ganddo'r hawl i'w derbyn. Gallwn hefyd gysylltu â chi i ofyn am ragor o wybodaeth am eich cais er mwyn i ni allu ymateb yn gynt.

**Cyfyngiad amser i ymateb**

Rydym yn ceisio ymateb i bob cais dilys o fewn mis. Yn achlysurol, gall gymryd mwy na mis os yw eich cais yn arbennig o gymhleth neu os ydych wedi gwneud nifer o geisiadau. Mewn achos o'r fath, byddwn yn eich hysbysu ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

## 12 RHESTR TERMAU: BETH MAE GEIRIAU / YMADRODDION A DDEFNYDDIR YN YR HYSBYSIAD PREIFATRWYDD HWN YN EI OLYGU?

| **Mwy am "sail gyfreithlon" i brosesu** | | |
|---|---|---|
| | **Budd Cyfreithlon:** | Mae'n golygu budd Gyrfa Cymru o ran cynnal a rheoli ein busnes i'n galluogi i roi'r gwasanaeth gorau i chi a'r profiad gorau a mwyaf diogel. Rydym yn gwneud yn siŵr ein bod yn ystyried ac yn cydbwyso unrhyw effaith bosibl (yn gadarnhaol ac yn negyddol) arnoch chi a'ch hawliau cyn i ni brosesu eich data personol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon. Nid ydym yn defnyddio eich data personol ar gyfer gweithgareddau lle mae'r effaith arnoch chi'n drech na'n buddiannau ni (oni bai eich bod wedi rhoi eich caniatâd neu fel arall ei fod yn ofynnol neu'n cael ei ganiatáu yn ôl y gyfraith). Nid yw buddiannau cyfreithlon yn berthnasol lle rydym yn gweithredu yn rhinwedd ein swyddogaeth fel corff cyhoeddus. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut yr ydym yn asesu ein buddiannau cyfreithlon yn erbyn unrhyw effaith bosibl arnoch chi mewn perthynas â gweithgareddau penodol drwy gysylltu â'n tîm preifatrwydd data. |
| | **Cyflawni Contract:** | Mae'n golygu prosesu eich data lle bo angen er mwyn cyflawni contract yr ydych wedi ymrwymo iddo, neu gymryd camau ar eich cais cyn cytuno â chontract o'r fath. |
| | **Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu reoleiddiol:** | Mae'n golygu prosesu eich data personol lle bo hynny'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu reoleiddiol y mae Gyrfa Cymru yn ddarostyngedig iddi. |
| | **Cyflawni tasg er budd y** | Mae'n golygu prosesu eich data personol lle bo angen er budd y cyhoedd a / neu lle mae'n angenrheidiol i ni eu |

| | | |
|---|---|---|
| | **cyhoedd a / neu gyflawni ein swyddogaethau swyddogol:** | prosesu i arfer ein hawdurdod swyddogol, megis i'ch cefnogi i wneud penderfyniadau ynglŷn â'ch addysg a'ch gyrfa, i helpu mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac i fonitro cyfleoedd cyfartal. |
| **Mwy am fy "hawliau cyfreithiol"** | **Mae gennych hawl:** | |
| | **(1)** | **Gofyn am fynediad** at eich data personol (yr enw cyffredin am hyn yw "cais am fynediad gan wrthrych y data"). Mae hyn yn eich galluogi i gael copi o'r data personol sydd gennym amdanoch chi ac i wirio ein bod yn eu prosesu'n gyfreithlon. |
| | **(2)** | **Gofyn am gywiro** unrhyw ddata personol sydd gennym amdanoch chi. Mae hyn yn eich galluogi i gywiro unrhyw ddata anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch chi, er efallai y bydd angen i ni gadarnhau cywirdeb y data newydd a rowch i ni. |
| | **(3)** | **Gofyn am ddileu** eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu gael gwared ar eich data personol lle nad oes rheswm da i ni barhau i'w prosesu. Mae gennych hawl hefyd i ofyn i ni ddileu neu gael gwared ar eich data personol lle rydych wedi llwyddo i arfer eich hawl i wrthwynebu eu prosesu (gweler isod), lle gallem fod wedi prosesu eich gwybodaeth yn anghyfreithlon, neu lle mae'n ofynnol i ni ddileu eich data personol i gydymffurfio â chyfraith leol. Noder, fodd bynnag, na fyddwn bob amser yn gallu cydymffurfio â'ch cais i ddileu am resymau cyfreithiol penodol a byddwn yn rhoi gwybod i chi am hyn, os yn berthnasol, ar adeg eich cais. |
| | **(4)** | **Gwrthwynebu prosesu** eich data personol lle rydym yn dibynnu ar fudd cyfreithlon (neu fudd trydydd parti) / lle |

| | | |
|---|---|---|
| | | rydym yn dibynnu ar dasg gyhoeddus a bod rhywbeth am eich sefyllfa benodol chi sy'n golygu eich bod am wrthwynebu prosesu ar y sail hon gan eich bod yn teimlo bod hynny'n effeithio ar eich hawliau sylfaenol a'ch rhyddid. Mae gennych hawl hefyd i wrthwynebu lle rydym yn prosesu eich data personol at ddibenion marchnata uniongyrchol. Mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn dangos bod gennym sail gyfreithlon gref i brosesu eich gwybodaeth sy'n drech na'ch hawliau a'ch rhyddid chi. |
| | **(5)** | **Gofyn am gyfyngu ar brosesu** eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni atal prosesu eich data personol yn yr amgylchiadau canlynol: (a) os ydych am i ni gadarnhau cywirdeb y data; (b) lle mae ein defnydd o'r data'n anghyfreithlon ond nad ydych chi am i ni ei ddileu; (c) lle mae angen i ni gadw'r data hyd yn oed os nad oes eu hangen arnom mwyach gan fod eu hangen arnoch chi i sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol; neu (d) eich bod wedi gwrthwynebu i ni ddefnyddio eich data ond bod angen i ni wirio a oes gennym sail gyfreithlon i'w defnyddio sy'n cymryd blaenoriaeth. |
| | **(6)** | **Gofyn am drosglwyddo** eich data personol i chi neu i drydydd parti. Byddwn yn darparu i chi, neu i drydydd parti o'ch dewis chi, eich data personol mewn fformat strwythuredig a chyffredin y gall peiriant ei ddarllen. Noder nad yw'r hawl hon ond yn berthnasol i wybodaeth awtomataidd yr ydych yn wreiddiol wedi rhoi caniatâd i ni ei defnyddio neu lle'r ydym wedi defnyddio'r wybodaeth i gyflawni contract â chi. |
| | **(7)** | **Tynnu caniatâd yn ôl** unrhyw bryd lle rydym yn dibynnu ar ganiatâd i brosesu eich data personol. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn effeithio ar gyfreithlondeb unrhyw brosesu a wnaethpwyd cyn i chi dynnu eich caniatâd yn ôl. Os byddwch yn tynnu eich caniatâd yn ôl, mae'n bosibl na fyddwn yn gallu darparu rhai cynhyrchion neu wasanaethau i |

| | | |
|---|---|---|
| | | chi. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os mai dyma’r achos ar yr adeg y byddwch yn tynnu eich caniatâd yn ôl. |

Dyddiad yr adolygiad nesaf: Mehefin 2024